OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 181 (Cy.31) (C.9)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU
# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2003

*Wedi'i wneud - - 31 Ionawr 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 148(6) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (**1**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2003.

(2) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002;

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

### Y diwrnod penodedig

**2.** 1 Chwefror 2003 yw'r diwrnod a benodwyd i adran 16 o'r Ddeddf ddod i rym.

(**1**) 2002 p.38. Rhoddwyd y pwerau i'r Gweinidog priodol. Ystyr Gweinidog priodol yw'r Cynulliad mewn perthynas â Chymru, a'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (a.144(1) o'r Ddeddf). Ystyr Cynulliad yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru (a. 144(1) o'r Ddeddf).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

*Jenny Randerson*
Y Gweindog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg.

31 Ionawr 2003

(**2**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Daw'r Gorchymyn hwn ag adran 16 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 i rym sy'n diwygio Deddf Safonau Gofal 2000 drwy fewnosod darpariaeth newydd (adran 36A). Mae'r adran newydd yn gwneud darpariaeth ar gyfer dosbarthu swyddogaethau mewn perthynas ag asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Comisiwn Safonau Gofal Cenedlaethol fel awdurdodau cofrestru.